Cyngor Cymuned Pentir

# Cofnodion Cyngor Llawn Nos Iau 11eg o Fedi 2025
# Gynhalwyd yng Nghanolfan GLASINFRYN

1. Presennol: /Present
   Cyng I Ellis Cadeirydd; Cyng C W Owen Is Gadairydd; Cyng A Joyce; Cyng J Griffiths; Cyng J Pierce; Cyng L A James; Cyng G Owen; Cyng D Jones-Morris; Cyng E Roberts; Cyng H Griffiths a'r Cyng M Jones
   S E Jones Cyfieithydd a'r Clerc
2. Ymddiheuriadau: Apologies
   Cyng B Jones
3. Croeso / Welcome
   Estynodd y Cadeirydd groeso i bawb a sicrhau fod yr offer cyfieuthu yn gweithio
4. Datgan buddiant / declaration of interest
   Cyng L A James a Cyng A Joyce yn ymddiriedolwyr yng Nghanolfan Penrhos
5. Derbyn cofnodion / Accept Minutes 10fed o Orffennaf / July 2025
   Derbynnwyd fel cofnodion cywir ar gynnig Cyng L A James gafodd ei eilio gan y Cyng J Pierce
6. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising

   Cylchfan Ysbyty Gwynedd Tra bod y gylchfan ei hun a'r un groesfan i'w canmol ar ei gorffeniad nid yw llinnellau melyn Coed y Maes byth wedi eu gosod yn ol

   **Cadeirydd am gysylltu nol hefo Swyddog Gwynedd** i ddatgan ei siom yn ogystal a holi am leoliad y groesfan ochr Bangor

   Y Bocs blodau wedi cyrraedd a pridd ynddo - **Clerc i gysylltu hefo'r garddwr i gael planhigion**

   Archwilwyr Allannol Y Cadeirydd wedi codi 'cwyn swyddogol' ag amser ymateb i hwnnw yn dod i ben wythnos nesaf

   Llwybr Treborth Mae ordor i'w gofrestru wedi ei wneud a chais wedi ei wneud i ail-wynebu y llwybr – **Cyngor Gwynedd yn ceisio trefnu cytuneb ail-wynebu gyda'r tir-feddianwr**

   Cais Gwybodaeth Dim ymateb wedi ei dderbyn a 6 wythnos wedi pasio

   Cyng M Jones wedi mynychu cyfarfod o'r 'River trust' ar Afon Cegin Byddai yn syniad gwahodd rhywun draw i'n cyfarfod **Cyng M Jones am gysylltu nol i drefnu**

   Gwaharddiad Traffig Rhybudd cau ffordd i Gylchfan JLS at Cylchfan Treborth Amserlen y Gwaith yma wedi llithro ag ail rybudd fel yr un gwreiddiol wedi cyfeirio at droi i'r dde ar y gyffordd yn Nant y Mownt yn hytrach na troi pob cerbyd i'r chwith tuag at gylchfan gwaelod Allt Faenol ag yn ol i fyny **Clerc gysylltu nol hefo Gwynedd**

   Arddangosfa Arlunio Glasinfryn Arddangosfa rhagorol a dros 60 wedi ymweld

   Torri Ochrau Ffyrdd Nodwyd fod rhai o'n ffyrdd cefn gwlad bellach fel twneli gan nad yw tirfeddianwyr yn torri eu gwrychoedd a hynny ers sawl blwyddyn Cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd yw torri ochrau ffyrdd a'r metr isaf o'r cloddiau/gwrychoedd **Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd** yn gofyn iddynt gysylltu a gorchymun i'r tirfeddanwyr dorri eu gwrychoedd uwchlaw y metr isaf

**7 Materion ariannol / Financial Issues**

   i. Mantolen ariannol / Financial report

Mantolen ariannol ddosbarthwyd yn dangos £43,174.95 yn y Cyfrif Cyfredol yn dilyn derbyn ail daliad y Presept a £41,764.03 yn y Cyfrif Cadw Cadarnhawyd i'r Clerc dalu y taliadau oedd ddyledus

ii. **Taliadau Ar-lein - 2 i gadarnhau**

Y Clerc wedi cael ar ddeallt gan ein archwilwyr mewnnol bod posib bellach Bancio ar lein a bod hynny yn aml yn ei gwneud yn haws o lawer gysoni banc **Clerc i wneud ymholiad**

iii. **Cofnodion cyfarfod PC / Minutes of F C 23/07/2025**

Cyfrinachol a Sensitive – wedi'i olygu

[redacted]

8. **Cynllunio / Planning**

Dim cais wedi ei dderbyn Parc Bryn Cegin tu allan i'n ardal ni o Arllechwedd

9. **Materion y Clerc / Topics from the Clerk**

- **GwyrddNi - Cadarnhad derbyn grant o £6,660.00 wedi ei dderbyn**
  - Cadarnhau trefniadau ar gyfer y ddol flodau Clerc i gysylltu hefo Adran Gwaith Stryd Gwynedd lle cafwyd amcanbris
  - a murluniau Cyng L A James i gysylltu a Sioned Glyn
- **Diweddariad Ganolfan / Ysgol y Faenol**

  Cyfrinachol a Sensitive – wedi'i olygu

  [redacted]
- **Capel y Fynwent**
  - Prisiau Paentio a gosod cegin a cyswllt dwr

Prisiau wedi eu derbyn am y 3 arwahan oedd yn dderbyniol

Bydd rhaid cael cyswllt trydan i lefel y gegin cyn ei gosod a phaentio

Cytunwyd cael pris Trydanwr ag yna symud ymlaen Dwr Cegin a Phaentio

- **Cais gosod mainc arall yn y Fynwent – adran llwch**

Cais wedi ei dderbyn i osod mainc 'er cof' yn yr adran llwch

O gofio ein bod eisioes hefo 2 fainc a'n bwriad i osod dwy ar y ddol Flodau gwyllt mynegwyd rhywfaint o bryder ynglyn a faint o geisiadau cyffelyb yda ni'n debygol o gael. Cytunwyd y dylid ystyried cael polisi cyn cytuno symud ymhellach

- **Cyflwr Llwybrau cyhoeddus**

Cais wedi ei dderbyn o Felinheli yn holi os oedd gennym ddata/gwybodaeth am gyflwr ein llwybrau cyhoeddus fel sydd gan Cyngor Felinheli er bod hwnnw yn son am gyflwr eu llwybrau yn 2017.

Cyn ystyried ymhellach byddai angen ystyried costau a hefyd faint o werth fyddai onibai eu bod yn cael ei adolygu yn rheolaidd

Mae ein llwybrau yn cael eu torri yn flynyddol ag unrhyw ddiffyg yn ceisio cael ei ddatrys

- **Gweminar Bio-amrywiaeth Unllais Cymru**
  Rhanwyd er gwybodaeth

**10. Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**

- **Cyng A Joyce - Parcio trigolion**

Adroddodd y Cynghorydd iddo gysylltu a Swyddog yng Nghyngor i hoili am unrhyw ddedfwriaeth ynglyn a gosod arwyddion tu allan i dai ar gyfer rhwystro cerbydau rhag parcio wrth eu eiddo

'Roedd wedi cael ar ddeallt nad oedd er bod eraill wedi cael ar ddeallt bod rhywrai wedi gosod arwyddion a bod swyddogion Gwynedd wedi eu tynnu lawr

Clerc i gysylltu a Gwynedd a gwahodd rhywun i ddod draw atom i drafod

Diolchwyd i'r Cynghorydd am ei ymroddiad

- **Cyng J Griffiths** wedi dod a amcanbris gosod cneswr dwr poeth i Ganolfan Glasinfryn
  Gan iddo fod wedi gadael yn gynnar nid oedd mewn sefyllfa i ateb os mae un 2.5 litr yntau 5 litr fyddai mwyaf addas
  **Clerc i holi yr Ysgrifennyddes**

**11. Newyddion**

Materion i'w ychwanegu i'r wefan –

Mis Awst wedi bod yn gyfnod gwyliau a felly fawr i'w adrodd

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.10 ag atgoffwyd yr aelodau mae hwn fyddai y cyfarfod olaf am eleni yn Glasinfryn**